# Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i’r fersiwn ddiwygiedig o adroddiad Tasglu Llawrydd Cymru, Dawns yng Nghymru Tachwedd 2020

Hoffwn ddiolch i Dasglu Llawrydd Cymru am lunio'r adroddiad. Mae'n tynnu sylw at nifer o broblemau sy'n wynebu dawnswyr yng Nghymru ac rydym ni hefyd yn cydnabod llawer ohonynt. Nid ydynt yn newydd ond maent wedi'u gwaethygu gan y pandemig fel mae’r ystadegau o Arolwg Llawrydd Cymru yn dangos.

Mae nifer ohonynt yn gymhleth ac mae buddsoddi arian yn unig yn annhebygol o greu’r newid y mae pawb am ei weld. Nid oes ateb cyflym i ddatrys y problemau dan sylw. Nid yw hyn ychwaith yn rheswm dros laesu dwylo. Bydd y newid yn deillio o’n gwaith ar y cyd, ac ar draws sectorau, i fuddsoddi’r adnoddau priodol yn y tymor hir. Rydym ni wedi ymrwymo i wneud hyn.

Hoffwn ymateb i'r pwyntiau penodol a godwch. Gobeithio y bydd hyn yn egluro pethau’n well a rhoi barn fwy cytbwys ar y materion.

Cytunwn fod angen gweithredu. Yn ein hymateb, ceisiwn fod yn glir am yr hyn y gallwn ei wneud. Bydd rhai datblygiadau yn cymryd rhagor o amser a thrafodaeth i greu strategaeth tymor hir i symud ymlaen mewn ffordd gynaliadwy.

Ein gweledigaeth yw cael ecoleg ddawns gref sy'n galluogi dawnswyr i gynnal gyrfa yng Nghymru a rhoi cyfleoedd cyffrous i bobl ymgysylltu â dawns, yn gyfranogwyr ac aelodau o’r gynulleidfa. Rydym ni am weithio gyda chi i gyflawni'r weledigaeth.

## Y problemau

Mae eich adroddiad yn tynnu sylw at ddau faes allweddol:

• *Y tanariannu dros amser hir gan Gyngor y Celfyddydau i ddawns sydd i’w weld yn y data a’r ystadegau; ers 2012 mae hyn wedi gwaethygu gyda diffyg gwybodaeth benodol am y ddawns yn y Cyngor*

• *Y problemau systemig sy'n wynebu dawnswyr llawrydd a ffyrdd strategol (y Cyngor a’r Portffolio) o'u cefnogi i ddatblygu, cynhyrchu a chyflwyno dawns*

Yn gyffredinol, cytunwn â'r datganiadau. O ran ariannu dawns mae ffactorau eraill a drafodwn yn nes ymlaen. Rydym ni am fuddsoddi rhagor o arian mewn dawns o safon sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa, cyrraedd yn ehangach a meithrin talent greadigol.

Mae cefnogi gweithwyr llawrydd i oresgyn y problemau o ran cael gafael ar arian a chymorth yn un o'r camau uniongyrchol y gallwn eu cymryd.

Nodwn y sylwadau a'r diwygiadau i'r adroddiad o ran ein harbenigedd yn y ddawns. Ers 2012 cefnwn ar gael uwch swyddogion i’r celfyddydau unigol ond ni thriniwn y ddawns yn llai ffafriol nag unrhyw gelfyddyd arall o’i herwydd. Cytunwn â’r lleihad yn nifer ein staff ac â’r ffaith nad ydym ni efallai mor weladwy ac nad oes gennym unigolion â ffocws ar un gelfyddyd yn unig. Ond mae gennym grŵp datblygu sector y ddawns sy'n cyfarfod yn rheolaidd i edrych ar ffyrdd posibl o gefnogi'r sector.

Mae ein holl waith yn canolbwyntio ar gyflawni ein cynllun corfforaethol, *Er Budd Pawb*. Gwyddom fod gan y ddawns ran hanfodol i'w chwarae i gyflawni ein huchelgais.

Yn ein barn ni, mae ffactorau ar waith nad yw’r adroddiad yn eu cydnabod. Credwn fod angen rhagor o ymchwilio i’r materion yma:
- math, safon a swm y cynnyrch dawns proffesiynol yng Nghymru
- sut mae'n cysylltu â’r gynulleidfa y tu hwnt i’r sector
- sut mae'n cysylltu â lleoliadau, gan gydnabod nad oes gan bob un arbenigedd yn y maes na hyder i raglennu dawns a bod magu cynulleidfa ddawns i rai’n golygu dechrau o'r dechrau
- sut bydd gan y cynnyrch bosibiliadau y tu hwnt i Gymru sy'n cefnogi modelau busnes a gyrfaoedd cynaliadwy
- sut rydym ni’n cefnogi, meithrin a datblygu'r genhedlaeth nesaf o ddawnswyr
- nad oes catalyddion i greu newid gan gefnogi twf a chysylltu â’r gynulleidfa

Rydym ni’n awyddus i ymchwilio’n bellach i weld sut y gallwn gydweithio ar y rhain.

## Arian

<u>Portffolio Celfyddydol Cymru</u>
Rydych chi’n cyflwyno darlun cywir o sefyllfa’r ddawns yn y Portffolio. Mae’n wir fod y ddawns yn cael llai o arian na chelfyddydau eraill yn y Portffolio. Ond ar yr ochr gadarnhaol, mae ein dau gwmni dawns yn perfformio'n dda ac wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Maent yn creu gwaith o safon ac yn ymestyn eu cyrhaeddiad a’u hamrywiaeth. Maent yn cyflawni'n dda yn ôl blaenoriaethau *Er Budd Pawb*.

Rydym ni wedi cynyddu dawns gymunedol yn y Portffolio drwy gynnwys yn ddiweddar Gydweithfa Jiwcbocs. Ond mae angen cael rhagor o amrywiaeth o ran ystod a maint y sefydliadau.

Rydych chi’n iawn i dynnu sylw at yr angen i gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg. Rydym ni hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig i ddawnswyr Cymraeg allu cynnal gyrfa yng Nghymru yn ôl eu dymuniad.

Bydd unrhyw newidiadau yn y ffordd rydym ni’n ariannu pethau’n dibynnu, pan ddigwydd ein Hadolygiad Buddsoddi, ar ba mor dda y gall y sefydliadau dawns sydd yn y Portffolio ac unrhyw sefydliadau sy’n cael arian prosiect sydd am ymgeisio i gael eu cynnwys yn y Portffolio ddangos sut y maent yn bodloni blaenoriaethau *Er Budd Pawb*.

## Arian y Loteri Genedlaethol

Cytunwn fod y 3.5% o'r arian yn 2019/20 a aeth i brosiectau lle'r oedd 50% o'r prosiect yn ddawns yn siomedig o isel. Mae canran yr arian i ddawns yn amrywio er 2005. Yn ein barn ni, nid yw'n cyd-daro â dileu'r swydd a oedd yn benodol i ddawns (a phob swydd arall a oedd yn benodol i gelfyddyd unigol) o'n strwythur yn 2012. Er enghraifft, yn 2014/15 rhoddwyd 19.41% o arian y Loteri Genedlaethol i brosiectau dawns.

Ond pryderwn am y ganran sy'n gyson isel ers 2015/16. Mae hyn yn wir er gwaethaf y ffaith bod y gyfradd lwyddo i geisiadau dawns ar yr un lefel ac ychydig yn uwch na'r gyfradd lwyddo i geisiadau eraill am y cyfnod. Y gyfradd lwyddo ar gyfartaledd i geisiadau eraill yn 2005-2014 oedd 73.23% a 56.19% yn 2014-2020. Felly, roedd y llwyddiant ar gyfartaledd i geisiadau dawns yn 80.72% a 59.26% ar gyfer y cyfnodau yna, sy'n uwch. Mae'r gostyngiad yn y gyfradd lwyddo i ddawns yn dilyn y gostyngiad yn y gyfradd lwyddo gyffredinol (wrth fod llai o arian y Loteri Genedlaethol ar gael) ac nid yn benodol i ddawns.

Mae llwyddiant unrhyw gais gan y Loteri Genedlaethol yn gysylltiedig â'i allu i gyflawni blaenoriaethau *Er Budd Pawb*. Mae hyn yn cynnwys cyflawni yn erbyn ein huchelgais cydraddoldeb ac amrywiaeth, y gallu i gyrraedd cynulleidfa a bod y gwaith o safon. Mae unrhyw arian strategol a roddwn yn gysylltiedig â'n hamcanion corfforaethol.

## Y camau nesaf – y cymorth y gallwn ei gynnig

Hoffem weithio gyda chi i ddatblygu prosiectau a mentrau sy'n cyd-fynd â meini prawf a blaenoriaethau *Er Budd Pawb*. Yno rydym ni'n nodi ein blaenoriaethau a'n hymrwymiad i gefnogi ystod ehangach o artistiaid a chynnyrch artistig (gan gynnwys gwaith gan artistiaid duon, Asiaidd, ethnig lleiafrifol, anabl a B/byddar), gwaith Cymraeg a gwaith sy'n cyrraedd yn ddyfnach i gymunedau Cymru.

Credwn hefyd fod rhagor y gallwn ei wneud i annog datblygiad y sector gwerin a dawns draddodiadol. Dyma ein strategaeth a chredwn fod dawns fel celfyddyd mewn sefyllfa gref i'n helpu i'w chyflawni. Ond ni fwriadwn ddatblygu strategaethau i gelfyddydau unigol. Mae ein Swyddogion Datblygu a'n Rheolwyr Portffolio ar gael i drafod eich syniadau gyda chi a'ch cefnogi i ddatblygu ceisiadau i'n ffrydiau ariannu. Wrth gwrs ni allwn ariannu pob cais ond byddwn ni bob amser yn canolbwyntio ar y rhai a all gyflawni ein huchelgais. Credwn y gallwn gydweithio'n agosach â chi, ac â rhanddeiliaid allweddol eraill, i ariannu mentrau a all ddiwallu'r rhan fwyaf o'r anghenion sydd yn eich adroddiad a'n blaenoriaethau corfforaethol. Anogwch artistiaid llawrydd i gysylltu â ni i drafod eu syniadau.

Rydym ni'n ymwybodol bod ein strwythurau a'n prosesau presennol yn rhwystro rhai artistiaid rhag ymgeisio, yn enwedig pobl â llai o brofiad o ymgeisio am arian. Rydym ni'n ceisio symleiddio ein prosesau ariannu i ddymchwel y rhwystrau. Rydym ni wedi ystyried y sylwadau yn ein gwerthusiad o'r cynllun Gwytnwch (yn gynharach eleni) ac rydym wrthi'n

datblygu cynllun gweithredu i wneud y newidiadau sydd eu hangen. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn yn y flwyddyn newydd.

Rydym ni’n cydnabod na all rhai artistiaid weld y math o waith y maent am ei wneud yn y prosiectau rydym ni wedi'u hariannu yn y gorffennol. Mae’n bosibl felly eu bod wedi cyrraedd y casgliad nad oes gennym ddiddordeb mewn ariannu amrywiaeth o artistiaid a chynnyrch. Nid yw hyn yn wir. Rydym ni hefyd yn ymwybodol nad ydym ni’n cael ein hystyried yn ddigon agored a hygyrch i ymgeiswyr newydd. Byddwn ni’n chwilio am ffyrdd newydd a gwahanol o gyfathrebu â'r sector fod gennym ddiddordeb mewn ariannu amrywiaeth eang o waith sy'n cysylltu'n ystyrlon â chynulleidfa. Byddwn ni hefyd yn gweithio i ddod o hyd i ffyrdd o fod yn fwy hygyrch fel y gallwn dechrau sgyrsiau gyda'r unigolion na chawsant ein harian yn y gorffennol.

Rydym ni’n dechrau mynd i'r afael â'r angen am arian tymor hir. Rydym ni’n ystyried hyn wrth gynllunio rhaglenni ariannu newydd. Mae ein cronfa newydd, Cysylltu a Ffynnu, er enghraifft, yn caniatáu prosiectau hwy. Rydym ni’n gobeithio gweld cynnydd mewn prosiectau dawns yn dod atom.

Nodwn y cais penodol i wneud newidiadau i'n Hadolygiad Buddsoddi a chefnogi sefydliadau dawns sy’n cael arian prosiect i droi’n sefydliadau refeniw yn y Portffolio. Byddwn ni’n cyhoeddi meini prawf ar gyfer ein Hadolygiad Buddsoddi. Gall pob sefydliad dawns sy’n cael arian prosiect weld y wybodaeth ar ein gwefan cyn iddynt ymgeisio. Dylai fod gan sefydliadau ddigon o amser rhwng cyhoeddi a chyflwyno i ganolbwyntio ar y meini prawf, gan gynnwys trafod gyda ni gynigion i gefnogi datblygu sefydliadol neu greadigol.

## Casgliad

Rydym ni’n cydnabod na fydd y camau hyn ar eu pen eu hunain yn datrys yr holl broblemau. Mae rhai wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac mae bylchau yn y ddarpariaeth na ellir eu datrys heb gydweithio. Rhaid i bob partner yn y sector lunio mentrau hir dymor i alluogi newid. Rydym ni’n rhannu eich pryderon ac eisiau gweithio gyda chi, ac eraill, i ddatblygu syniadau. Byddwn ni’n croesawu’r cyfle i drafod eich syniadau’n bellach gyda chi.